Cynllun Cyhoeddi

Y teitl a'r cyfeiriad llawn ar gyfer anfon ceisiadau am unrhyw ddogfen yw:

Ysgol Gyfun Gŵyr
Stryd Talbot,
Tregwyr,
Abertawe
SA4 3DB

Y person sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun hwn yw Mr Ben Roberts-Rheolwr Busnes yr Ysgol

1. Cyflwyniad: beth yw cynllun cyhoeddi a pham mae wedi'i ddatblygu

Un o nodau Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (y cyfeirir ati fel DRhG yng ngweddill y ddogfen hon) yw y dylai awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys yr holl ysgolion a gynhelir, fod yn glir ac yn rhagweithiol ynghylch yr wybodaeth y byddant yn ei gwneud yn gyhoeddus.

I wneud hyn, mae'n rhaid i ni lunio cynllun cyhoeddi, gan nodi:

- *Dosbarthiadau'r wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi neu'n bwriadu ei chyhoeddi;*
- *Y ffordd caiff yr wybodaeth ei chyhoeddi; a*
- *A yw'r wybodaeth ar gael am ddim neu wrth dalu amdani.*

Mae'r cynllun yn cynnwys gwybodaeth a gyhoeddwyd eisoes a gwybodaeth a fydd yn cael ei chyhoeddi yn y dyfodol. Mae'r holl wybodaeth yn ein cynllun cyhoeddi naill ai ar gael i chi ar ein gwefan neu ar gael ar bapur.

Bydd peth gwybodaeth yn ein meddiant na chaiff ei chyhoeddi, er enghraifft gwybodaeth bersonol.

Mae'r cynllun cyhoeddi hwn yn cydymffurfio â'r cynllun model ar gyfer ysgolion a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

2. Categorïau gwybodaeth a gyhoeddir

Mae'r cynllun cyhoeddi'n eich tywys i wybodaeth rydym yn ei chyhoeddi ar hyn o bryd (neu wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar) neu byddwn yn ei chyhoeddi yn y dyfodol – caiff ei rhannu'n gategorïau gwybodaeth o'r enw 'dosbarthiadau'. Mae'r rhain i'w gweld yn adran 5 y cynllun hwn. Trefnir y dosbarthiadau gwybodaeth sydd ar gael i bedwar maes pwnc eang:

- ***Prosbectws Ysgol* – gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol.**
- ***Dogfennau Llywodraethwyr* – gwybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr ac yn nogfennau eraill y corff llywodraethu.**
- ***Disgyblion a'r Cwricwlwm* – gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â disgyblion a chwricwlwm yr ysgol.**
- ***Polisïau Ysgol* – gwybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â'r ysgol yn gyffredinol.**

3. Sut i wneud cais am wybodaeth

Gallwch ofyn am gopi o'r wybodaeth y mae ei hangen arnoch drwy'r manylion cyswllt isod.

Os nad yw'r wybodaeth rydych yn chwilio amdani ar gael drwy'r cynllun, gallwch ddal i ofyn ac ydyw gennym. Gallwch gysylltu â'r ysgol dros y ffôn, drwy ffacs, e-bost neu drwy anfon llythyr.

E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea-edunet.gov.uk
Ffôn: **01792 872403**
Cyfeiriad Cyswllt: **Ysgol Gyfun Gŵyr,Stryd Talbot, Tregwyr, Abertawe, SA4 3DB**

I'n helpu i brosesu'ch cais yn gyflym, marciwch unrhyw ohebiaeth yn glir gyda **"CAIS CYNLLUN CYHOEDDIADAU"** (mewn **PRIFLYTHRENNAU bras**).

4. Talu am wybodaeth

Darperir copïau unigol o'r wybodaeth a gynhwysir yn y cynllun cyhoeddi hwn am ddim oni nodir yn wahanol. Os yw eich cais yn golygu bod yn rhaid i ni wneud llawer o lungopïo neu argraffu, neu dalu ffi bostio fawr, neu y mae ar gyfer eitem y codir tâl amdani megis cyhoeddiadau wedi'u hargraffu neu fideos, byddwn yn rhoi gwybod i chi cyn bodloni'ch cais. Lle bydd tâl am eitem benodol, nodir hyn yn y blychau yn Adran 5 gydag arwydd £ yn dilyn disgrifiad o'r eitem.

5. Dosbarthiadau Gwybodaeth a Gyhoeddir ar hyn o Bryd

Prosbectws yr Ysgol – mae'r rhan hon yn nodi gwybodaeth a gyhoeddir ym mhrosbectws yr ysgol.

Dosbarth	Disgrifiad
Prosbectws Ysgol	Mae cynnwys statudol prosbectws yr ysgol fel a ganlyn, (gall yr ysgol gynnwys eitemau eraill yn ôl ei disgresiwn): • Enw, cyfeiriad a rhif ffôn yr ysgol, a'r math o ysgol • Enwau'r pennaeth a chadeirydd y llywodraethwyr • Gwybodaeth am dderbyniadau • Datganiad o ethos a gwerthoedd yr ysgol • Manylion unrhyw gysylltiadau â chrefydd neu enwad crefyddol penodol, yr addysg grefyddol a ddarperir, hawl rhieni i dynnu eu plant o addysg grefyddol ac addoli ar y cyd, a'r ddarpariaeth amgen i'r disgyblion hynny • Gwybodaeth am bolisi'r ysgol ar ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol • Nifer y disgyblion ar y gofrestr a chyfraddau absenoldebau â chaniatâd a heb ganiatâd disgyblion • Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol priodol, gyda ffigurau cryno cenedlaethol • Defnydd o'r iaith Gymraeg • Canlyniadau CA4 yn yr ysgol, yn lleol ac yn genedlaethol • Crynodeb o ganlyniadau CA5 yn yr ysgol ac yn genedlaethol • Nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol eraill a'r ganran sy'n eu cyflawni • Pa drywydd y mae'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn ei dilyn

Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r corff llywodraethu –
mae'r adran hon yn nodi gwybodaeth a gyhoeddir yn Adroddiad Blynyddol Llywodraethwyr ac yn nogfennau eraill y Corff Llywodraethu.

Dosbarth	Disgrifiad
Prosbectws Ysgol	Dyma gynnwys statudol adroddiad blynyddol y llywodraethwyr i rieni, (gall yr ysgol gynnwys eitemau eraill yn ôl ei disgresiwn): • Manylion aelodaeth y corff llywodraethu, gan gynnwys enw a chyfeiriad y cadeirydd a'r clerc • Datganiad ar gynnydd wrth roi'r cynllun gweithredu a luniwyd yn dilyn arolwg ar waith • Datganiad ariannol, gan gynnwys rhoddion i'r ysgol a symiau a dalwyd i lywodraethwyr am dreuliau • Gwybodaeth am ddiogelwch yr ysgol • Gwybodaeth am roi polisi'r corff llywodraethu ar ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol(ADY) ar waith ac unrhyw newidiadau i'r polisi dros y flwyddyn ddiwethaf • Disgrifiad o'r trefniadau ar gyfer derbyn disgyblion ag anableddau; manylion camau i atal disgyblion anabl rhag cael eu trin yn llai ffafriol na disgyblion eraill; a manylion cyfleusterau presennol i helpu disgyblion ag anableddau fynd o gwmpas yr ysgol • Y cynllun hygyrchedd sy'n cynnwys polisïau'r dyfodol ar gyfer cynyddu mynediad i'r ysgol i ddisgyblion ag anableddau • Nifer y disgyblion ar y gofrestr a chyfraddau absenoldebau disgyblion â chaniatâd a heb ganiatâd • Canlyniadau asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer Cyfnodau Allweddol priodol, gyda ffigurau cryno cenedlaethol • Targedau'r ysgol ar gyfer asesiadau Cyfnod Allweddol 3 • Targedau'r ysgol ar gyfer arholiadau cyhoeddus yng Nghyfnod Allweddol 4 • Canlyniadau CA4 yn yr ysgol, yn lleol ac yn genedlaethol • Canlyniadau CA5 yn yr ysgol ac yn genedlaethol • Pa drywydd y mae'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn ei dilyn
Offeryn Llywodraethu	• Enw'r ysgol • Categori'r ysgol • Enw'r corff llywodraethu • Cyfansoddiad y corff llywodraethu • Enw'r person sydd â'r hawl i benodi unrhyw gategori llywodraethwr • Manylion unrhyw ymddiriedolaeth • Os oes cymeriad crefyddol i'r ysgol, disgrifiad o ethos yr ysgol • Dyddiad gweithredu'r offeryn
Cofnodion cyfarfod y Corff Llywodraethu a'i bwyllgorau	Cofnodion bwrdd y llywodraethwyr a chyfarfodydd pwyllgorau

Polisïau Disgyblion a'r Cwricwlwm – mae'r adran hon yn rhoi mynediad i wybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â disgyblion a'r cwricwlwm ysgol.

Dosbarth	Disgrifiad
Cytundeb ysgol-gartref	Datganiad ysgrifenedig o nodau a gwerthoedd yr ysgol, cyfrifoldebau'r ysgol, cyfrifoldebau rhieni a disgwyliadau'r ysgol o'i disgyblion, er enghraifft Trefniadau gwaith cartref.
Polisi'r Cwricwlwm	Datganiad ar ddilyn y polisi ar gyfer pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol, gan gynnwys unrhyw faes llafur a ddilynir gan ddisgyblion yn yr ysgol.
Polisi Cydberthynas a Rhywioldeb	Datganiad ysgrifenedig o bolisi
Addoli ar y Cyd	Datganiad o drefniadau ar gyfer y weithred addoli ar y cyd dyddiol gofynnol.
Disgyblaeth Disgyblion	Datganiad ysgrifenedig o egwyddorion cyffredinol ar ymddygiad a disgyblaeth gan gynnwys polisi gwrth-fwlio fel y bo'n briodol.
Addysg Gyrfaoedd	Datganiad o'r rhaglenni addysg gyrfaoedd a ddarperir ar gyfer Cyfnod Allweddol 4.

Polisïau Ysgol – Mae'r adran hon yn rhoi mynediad i wybodaeth am bolisïau sy'n ymwneud â'r ysgol yn gyffredinol.

Dosbarth	Disgrifiad
Adroddiadau Arolygiadau Ysgol Estyn	Adroddiad ar arolygiad yr Ysgol.
Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg	Cynllun sy'n amlinellu'r camau gweithredu angenrheidiol yn dilyn arolygiad Estyn.
Polisïau ffioedd ac Ad-daliadau	Datganiad o bolisi'r ysgol o ran ffioedd ac ad-daliadau ar gyfer unrhyw bethau ychwanegol dewisol neu lety y caniateir ffioedd ar ei gyfer, er enghraifft, hyfforddiant cerddoriaeth, gwibdeithiau.
Amseroedd sesiynau ysgol	Manylion sesiynau ysgol a dyddiadau tymhorau a gwyliau ysgol.
Anghenion Dysgu Ychwanegol	Gwybodaeth am bolisi'r ysgol ar ddarparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
Cynlluniau Mynediad	Cynllun ysgrifenedig o welliannau i fynediad ar gyfer disgyblion ag anableddau.
Polisi Iechyd a Diogelwch	Datganiad ysgrifenedig o bolisi cyffredinol o ran iechyd a diogelwch gweithwyr (ac eraill) yn y gweithle a'r sefydliadau a'r trefniant ar gyfer cyflwyno'r polisi.
Polisi Amddiffyn Plant	Datganiad o egwyddorion cyffredinol trefniadau Amddiffyn Plant.
Gweithdrefn Gwyno	Datganiad o weithdrefnau ar gyfer ymdrin â chwynion.
Gwerthuso Staff	Datganiad o weithdrefnau a fabwysiadwyd gan y corff llywodraethu sy'n ymwneud â gwerthuso staff.
Ymddygiad, Disgyblaeth ac Achwyniadau Staff	Datganiad o weithdrefn ar gyfer rheoleiddio ymddygiad a disgyblaeth staff yr ysgol a gweithdrefnau y gall staff geisio iawn am achwyniad drwyddynt.

6. Adborth a Chwynion

Rydym yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych am y cynllun. Os ydych am gyflwyno unrhyw sylwadau am y cynllun cyhoeddi hwn neu os oes angen mwy o gymorth arnoch chi neu os ydych am gwyno, yna dylech gyfeirio hyn yn y lle cyntaf at ***Mr Ben Roberts, Rheolwr Busnes, Ysgol Guyfun Gŵyr, Stryd Talbot, Tregwyr, Abertawe SA4 3DB.***

Os nad ydych yn fodlon ar y cymorth rydych yn ei gael neu os nad ydym wedi gallu datrys eich cwyn ac rydych yn teimlo bod angen gwneud cwyn ffurfiol, dylech ei gyfeirio at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dyma'r sefydliad sy'n sicrhau cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac sy'n ymdrin â chwynion ffurfiol.

(Adolygiad 2026)